

Agenda – Culture, Welsh Language and Communications Committee

Meeting Venue:

Committee Room 2 – Senedd

Meeting date: 26 September 2019

Meeting time: 10.00

For further information contact:

Martha Da Gama Howells

Committee Clerk

0300 200 6565

SeneddCWLC@assembly.wales

- 1 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest**
(10.00)
- 2 Inquiry into live music in Wales: Venues**
(10.00–10.45) (Pages 1 – 20)
Guto Brychan, Clwb Ifor Bach
Terry Chinn, Clwb Y Bont
- 3 Inquiry into live music in Wales: Venues**
(10.45–11.30)
Gary Lulham, Sin City Club
Samantha Dabb, Le Public Space
- 4 Motion under Standing Order 17.42(vi) to resolve to exclude the public from the remainder of this meeting**
(11.30)
- 5 Private debrief**
(11.30–11.35)
- 6 Consideration of draft report: Tackling poverty and social exclusion through the arts and culture**
(11.35–12.00) (Pages 21 – 66)



Document is Restricted

By virtue of paragraph(s) vi of Standing Order 17.42

Document is Restricted

CLWB | IFOR | BACH

SEF. 1983

Clwb Ifor Bach | 11 Womanby Street | Cardiff | CF10 1BR (029) 2023 2199 | post@clwb.net

Diolch am y gwahoddiad i ymateb i'r Ymgynghoriad ynghylch y Diwydiant Cerddori- aeth yng Nghymru. Mae'r sylwadau isod wedi'i paratoi ar ran Bwrdd Rheoli Clwb Ifor Bach CIC, lleoliad cerddoriaeth byw yng Nghaerdydd sydd wedi bod yn wrei- thredol am dros 35 o flynyddoedd. Yn ogystal â threfnu digwyddiadau yn y Clwb a lleoliadau eraill yng Nghaerdydd rydym wedi hyrwyddo nifer o deithiau ar gyfer artistiaid led-led Cymru a bellach yn gyfrifol am Gŵyl Sŵn - gŵyl gerddoriaeth aml-leoliad sy'n digwydd yn flynyddol yn y brifddinas yng nghanol mis Hydref.

Mae'r Clwb yn cael ei adnabod fel un o prif ganlofannau cerddoriaeth byw Cymru ac yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi artistiaid newydd o Gymru a thu hwnt ar ddechrau eu gyrfa.

Rydym wedi cyd-weithio gyda'r Music Venues Trust i lunio ymateb i'r ymgynghoriad ac mi fydd nifer o'n sylwadau cyffredinol yn caei ei cynnwys yn ei adboirth nhw. Fodd bynnag isod rwyf am restru rhywfaint o sylwadau ychwanegol ynghylch mate- iron sydd wedi dod i'r amlwg i ni wrth weinyddu'r Clwb ynghyd ac awgrymiadau o ran sut medrid datrys rhai o'r problemau ynghlwm:

- (i) Mae'r polisiau trwyddedu presennol yn ei wneud yn anodd ac yn gostus i lwyfannu gigs rheolaidd. Y rheswm pennaf am hyn ydi'r canllawiau sydd mewn lle o ran y nifer o swyddogion diogelwch sydd angen ei cyflogi i gydymffurfio gyda'r drwydded. Gan bod lleoliadau tebyg i Clwb yn cael ei gweld yn yr un modd a chlybiau nos, yn hytrach na chanolfannau celfyddydol, mae'n ofynnol i ni gyflogu un swyddog dio- gelwch am bob cant o gwsmeriaid sy'n bresennol ar bob llawr o'r adeilad. Gall hyn olygu hyd at pedwar o swyddogion ar gyfer dig- wyddiad sy'n denu 250 o gwsmeriaid (3 swyddog yn yr ystafell ac un arall yn y fynedfa). Fodd bynnag pan rydym yn cynnal digwqyddiadau mewn llefydd sydd yn cael ei gweld fel canolfannau celfyddydol neu theatrau nid oes yr un amdoau mewn lle. Petai modd categoreiddio lleoliadau cerddoriaeth byw yn yr un modd a chanolfannau celfyd- dydol, ac o hynny newid yr amodau ynghylch swyddogion diogelwch, mi fyse hyn yn gwneud y costau o gynnal gigs byw yn llawer mwy hy- fyw.

- (ii) Rhwystrediaeth arall gyda'r rheolau trwyddedu presennol ydi'r pa mor anodd ydi hi i gynnal gigs i gynulleidfa dan 18 oed. Yn hanesyddol mi o'n ni'n medru croesawi pobl 14 oed ac hyn i'n gigs yn Clwb ond erbyn hyn, yn bennaf oherwydd pwysau gan swyddogion trwyddedu, rydym wedi gorfod newid ein polisi i 16+ yn ystod yr wythnos a 18+ ar y penwythnos. Mae'r polisiau hyn yn ei wneud yn gynyddol anodd i gynulleidfa ifanc i ddod i leoliadau megis Clwb i wylio cerddoriaeth byw. Y rheswm sydd yn cael ei rhoid i ni am dynhau'r rheolau yn- ghyloch caniatáu pobl dan 18 i fynychu'r Clwb ydi'r ffaith ein bod yn gwerthu alcohol yn y gigs. Fodd bynnag petai ni'n cynnal y dig- wyddiad mewn canolfan celfyddiol neu theatr, sydd hefyd yn gwerthu alcohol, ni fyse'r un rheolau mewn lle.
- (iii) Pwynt trafod arall yw'r canllawiau sydd mewn lle i gyfrifo'r nifer o bobl a gyniateir yn yr adeilad, yn unol a'r rheolau tân. Mae natur digwyddiadau byw yn golygu bod cynulleidfoedd yn dewis bod yn agosach i'w gilydd yn yr ystafell na fyse nhw mewn amgylchiadau gwahanol. Er hyn mae'n rhaid i ni gydymffurfio gyda rheolau nifer- oedd sydd wedi'i gosod ar gyfer ei gweithredu mewn sawl maes gwa- hanol. O ganlyniad mae nifer o'n digwyddiadau yn gallu edrych yn wag er ein bod wedi gwerthu'r holl docynnau â gyniateir yn ôl y dr- wydded. Byse mwy o hyblygrwydd efo hyn yn hwyluso trefniadau ac yn galluogi ni i gynyddu incwm.
- (iv) Mae'n werth nodi yma nad yw hyrwyddo gigs byw mewn lleoliadau tebyg i Clwb yn ariannol hyfyw. Rydym ond yn medru parhau i gynnig rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau byw yma am y rhesymau canlynol:
- (a) rydym yn gwmni nid er elw ac yn ail fuddosddi unrhyw elw i ge- fngi amcanion craidd y cwmni.
- (b) rydym yn berchen ar yr adeilad ac o ganlyniad heb wynebu'r cyn- nydd mewn rhent mae nifer o fusnesau tebyg wedi gorfod dygymod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- (c) mae gennym rhaglen cryf a rheolaidd o nosweithiau clwb sy'n helpu i ddigolledi'r buddsoddiad rydym yn ei wneud mewn cynnal gigs.

Heb yr uchod ni fyse modd i ni gynnal gigs yn y clwb, na chwaith cyflogi tim o 6 o bobl i'w trefnu a'i hyrwyddo (yn ogystal a 4 staff llawn amser arall a nifer heleaeth o staff llaw-rydd a rhan amser). Rydym wedi llwyddo i wneud hyn am dros 35 mlynedd er yr hinsawdd ac amodau cynyddol anodd i'r sector, ac wedi'i wneud heb dderbyn unrhyw nawdd rheolaidd i'n cynorthwyo. Petai newid i flaenoriaethau nawdd y Llywodraeth, ac o hyn y posibiliad i'r sector fedri derbyn cefno- gaeth ariannol i gefnogi'r rhaglen o ddigwyddiadau byw trwy'r wlad yna fedrai ond dychmygu'r hyn byse modd ei gyflawni o fewn y sin gerddoriaeth byw yng Nghymru.

By virtue of paragraph(s) vi of Standing Order 17.42

Document is Restricted

Document is Restricted